

Adroddiad gan y Grŵp Cyngkori Gweinidogol Allanol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru

Ymateb y Llywodraeth

Mae gan nifer o argymhellion gan y Grŵp Cyngkori Gweinidogol oblygiadau o ran adnoddau, capasiti ac amserlenni. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ymhellach gan Swyddogion Llywodraeth Cymru wrth i'r camau nesaf, a nodir isod, gael eu datblygu.

Argymhelliad 1

Dylai pob bwrdd ieched, o fewn tri mis, ddatblygu cynllun i leihau atgyfeiriadau i gleifion allanol mewn arbenigeddau lle ceir nifer fawr o gleifion.

- Dylid rhoi sylw penodol i amrywiadau ac arbenigeddau heb gyfiawnhad lle mae cyfraddau atgyfeirio y pen yn uwch na'r canolrif cenedlaethol.
- Dylai modelau sy'n cynnig dewisiadau amgen i lwybrau cleifion allanol traddodiadol gael eu nodi'n gyflym a'u graddio. Dylai'r rhaglen Cyllid Cenedlaethol ar gyfer Cyngor ac Arweiniad a'r rhaglen Llwybrau Cenedlaethol barhau.
- O fis Mehefin 2025, dylai'r cynnydd gael ei adrodd yn fisol i gyfarfodydd cyhoeddus byrddau ac ymddiriedolaethau ieched, ac mewn cyfarfodydd Perfformiad a Chynhyrchiant misol unigol (gweler Argymhelliad 18).

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae trawsnewid cleifion allanol yn agwedd annatod ar y Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd ac mae'n un o elfennau craidd y dull o optimeiddio gofal a gynlluniwyd.

Mae modelau amgen eisoes wedi cael eu datblygu'n genedlaethol drwy'r gwaith llwybrau cenedlaethol a'r Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd. Mae rhoi'r modelau hyn ar waith wedi cael ei adlewyrchu fel un o 35 o gamau galluogi â blaenoriaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros ieched a Gofal Cymdeithasol yn fframwaith cynllunio GIG Cymru, ac mae disgwyl i hyn fod yn rhan amlwg o gynlluniau gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26. Rydyn ni'n cytuno ei bod hi'n hollbwysig cyflawni'r rhain ar raddfa eang.

Mae cyflawni'r argymhelliad hwn yn ofyniad gweithredu i fyrddau ieched, a ddylai amlinellu cynlluniau cyflawni clir sy'n cyd-fynd â'r amserlenni a gynigir, a dylid datblygu'r rhain drwy eu hymateb i'r camau galluogi â blaenoriaeth.

Mae'n ddigon posib bod cyfiawnhad dros gyfraddau atgyfeirio uchel mewn grwpiau poblogaeth, ac mae'r adroddiad yn nodi mai â'r amrywiad heb gyfiawnhad y mae'n rhaid mynd i'r afael. Felly, mae disgwyl i fyrddau ieched nodi a mynd i'r afael ag amrywiad heb gyfiawnhad wrth gyflawni'r argymhelliad hwn.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i adolygu drwy gyfarfodydd perfformiad byrddau ieched.

Argymhelliad 2

Dylai'r holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau weithio i leihau amrywiadau mewn amseroedd aros i gleifion allanol drwy fabwysiadu'r arferion gorau o ran rheoli'r gwasanaeth i gleifion allanol

- Gan ddefnyddio adroddiadau GIRFT presennol arbenigeddau ymddiriedolaethau a byrddau iechyd, yr 16 o ganllawiau Ymhellach, Yn Gyflymach sy'n benodol i'r arbenigedd, brysbennu electronig gorfodol ar gyfer atgyfeiriadau, a mabwysiadu'r 29 o lwybrau ar draws y 6 arbenigedd sydd â'r amseroedd aros hiraf.
- O fis Mehefin 2025, dylai'r cynnydd gael ei adrodd yn fisol i gyfarfodydd cyhoeddus byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ac mewn cyfarfodydd Perfformiad a Chynhyrchiant misol unigol (gweler Argymhelliad 18).

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae trawsnewid cleifion allanol yn agwedd annatod ar y Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd ac mae'n un o elfennau craidd y dull o optimeiddio gofal a gynlluniwyd.

Mae modelau amgen eisoes wedi cael eu datblygu'n genedlaethol drwy'r gwaith llwybrau cenedlaethol a'r Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd. Mae rhoi'r modelau hyn ar waith wedi cael ei adlewyrchu fel un o 35 o gamau galluogi â blaenoriaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn fframwaith cynllunio GIG Cymru, ac mae disgwyl i hyn fod yn rhan amlwg o gynlluniau gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26.

Mae cyflawni'r argymhelliad hwn yn ofyniad gweithredu i fyrddau iechyd, a ddylai amlinellu cynlluniau cyflawni clir sy'n cyd-fynd â'r amserlenni a gynigir, a dylid datblygu'r rhain drwy eu hymateb i'r camau galluogi â blaenoriaeth. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu monitro a'u hadolygu yng nghyfarfodydd perfformiad byrddau iechyd.

Mae Gweithrediaeth y GIG wedi sefydlu cyfres o ganllawiau ar gleifion allanol mewn rhwydweithiau gweithredu clinigol, sy'n nodi'r arferion gorau. Mae gan fyrddau iechyd adroddiadau GIRFT unigol sy'n amlinellu'r sefyllfa a'r cyfleoedd i wella. Bydd angen integreiddio'r rhain yng nghynlluniau byrddau iechyd o fewn tri mis.

Argymhelliad 3

Dylai pob bwrdd iechyd gymryd camau i wella'r broses o reoli rhestrau aros.

3a) Dylai blaenoriaethu'r capasiti sydd ar gael yn well ar gyfer y cleifion sy'n aros hiraf ddod yn rhag-amod er mwyn cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adfer gofal a gynlluniwyd. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar safonau gofynnol yn seiliedig ar y set ddata Trin yn eu Tro bresennol, a dylid gwneud cyllid adfer gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26 yn amodol ar fodloni'r rhain ym mhob Bwrdd Iechyd unigol o fewn cyfnod penodol o amser. Amserlen – o fewn tri mis

3b) Dylai AaGIC hefyd sefydlu rhaglen hyfforddiant achrededig ar gyfer rheoli rhestrau aros, ar draws RTT a Chanser, wedi'i hanelu at reolwyr Band 7 a Band 8 sy'n gweithio ym maes gofal dewisol. Dros amser, dylai cwblhau'r cwrs hwn fod yn ddisgwyliad i'r holl reolwyr sy'n gweithio yn y meysydd hyn, er mwyn gwreiddio set gyson o sgiliau a rennir ledled y wlad. Amserlen – o fewn chwe mis

3c) Dylai Llywodraeth Cymru osod targed i'r holl gleifion gael eu dilysu i lawr i 36 wythnos erbyn diwedd 2025/26 a chyflwyno set ddata genedlaethol newydd i olrhain cynnydd. Os nad oes digon o hyder y gellid cyflawni hyn ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried contract wedi'i gaffael yn genedlaethol gyda chwmni allanol sy'n arbenigo mewn dilysu, er mwyn canolbwyntio ar feysydd sy'n annhebygol o allu cwblhau hyn yn annibynnol (er y gellid gwneud hyn ar sail unwaith dros Gymru ar gyfer y wlad gyfan hyd yn oed, o ystyried maint y boblogaeth). Dylid cefnogi hyn drwy gyllid Adferiad Gofal a Gynlluniwyd.

Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) hefyd ddatblygu set ddata genedlaethol newydd i olrhain cynnydd, naill ai'n seiliedig ar gyfraddau ROTT (symud o'r rhestr am resymau ar wahân i driniaeth) neu ddatganiadau byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ynghylch cyfran y rhai sy'n aros am 36 wythnos a ddilyswyd, a ddylai gael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd Perfformiad a Chynhyrchiant a ddisgrifir yn Argymhelliad 18. Amserlen – o fewn tri mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Mae rheoli rhestrau aros yn effeithiol yn agwedd annatod ar y Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd ac mae'n un o elfennau craidd y dull o optimeiddio gofal a gynlluniwyd. Mae effaith hyn yn cael ei monitro a'i hasesu drwy'r Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o ganllawiau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ei gwefan ym mis Ebrill 2025 i gefnogi'r gwaith o reoli rhestrau aros yn effeithiol. Bydd y broses o weithredu ar yr adolygiad yn cynnwys cymorth ar gyfer hyfforddiant ychwanegol.

Un o brif nodweddion y Cynllun Gofal a Gynlluniwyd ar gyfer 2025/26, gan barhau â'r ffocws a ddarparwyd yn 2024/25, yw cymell yr arferion gorau yn unol â'r camau galluogi â blaenoriaeth yn y fframwaith cynllunio. Bydd hyn yn gwella'r defnydd o gapasiti craidd a metrigau trin pawb yn ei dro.

Mae'r safonau sylfaenol ar gyfer cyfraddau trin pawb yn ei dro wedi cael eu cytuno a'u rhannu â byrddau iechyd, a byddant yn parhau i gael eu monitro'n fisol. Bydd Llywodraeth Cymru'n dechrau monitro perfformiad yn fewnol bob wythnos o 2 Mai 2025 ymlaen.

Mae'r rhwydweithiau gweithredu clinigol yn darparu safbwynt clinigol fesul arbenigedd i gryfhau'r meini prawf rhestru cleifion yn y fframweithiau optimeiddio.

Mae canllawiau a disgwyliad dilysu clir wedi cael eu darparu i fyrddau iechyd. Bydd perfformiad yn cael ei fonitro'n fisol o ddechrau mis Mai 2025 ymlaen.

Bydd penderfyniadau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch dyraniad unrhyw gyllid adfer gofal a gynlluniwyd yn 2025/26 yn gysylltiedig â gallu byrddau iechyd i gyflawni amrywiaeth o welliannau o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, a disgwyliadau a nodir fel cyflawni'r camau galluogi â blaenoriaeth, ac yn ddibynnol ar hyn.

Yn y maes blaenoriaeth strategol sy'n gysylltiedig ag Arweinyddiaeth ac Olyniaeth, yn eu llythyr cylch gwaith 2025/26 mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi cael cyfarwyddyd i gryfhau'r gwaith hyfforddi a datblygu ar gyfer rheoli a chyflawni gweithredol. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau â sefydliadau ac arweinwyr polisi allweddol ynghylch cyflwyno'r blaenoriaethau ar gyfer 2025/26.

Bydd dull cyson o ddilysu yn cael ei gryfhau fel rhan o'r Cynllun Gofal a Gynlluniwyd ar gyfer 2025/26. Mae nifer o gronfeydd data sy'n ei gwneud hi'n bosibl datblygu'r set ddata hon yn ystod 2025/26 a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gydag lechyd a Gofal Digidol Cymru ac ar draws y system i'w mireinio, ac i gyflawni'r argymhelliad hwn. Bydd y garfan 36 wythnos yn cael ei dilysu fel rhan o'r gwaith hwn.

Argymhelliad 4

a) Dylai pob bwrdd iechyd leihau amrywiadau heb gyfiawnhad mewn amseroedd aros am driniaethau a mabwysiadu'r arferion gorau o ran rheoli theatrau. Gellir cyflawni hyn drwy weithredu'r adroddiadau adolygu GIRFT presennol gan gynnwys yr adolygiadau theatrau. Dylai'r argymhelliad hwn gael ei ategu drwy sefydlu Byrddau Optimeiddio Theatrau Lleol, gyda chylch gwaith i ddarparu mwy o gynhyrchiant mewn sesiynau theatr, gan gynnwys gweithredu safonau arfer gorau achosion ym mhob sesiwn, yn enwedig mewn offthalmoleg ac orthopaedeg (ym maes offthalmoleg 8 cataract mewn sesiwn theatr 4 awr os yw'n sesiwn hyfforddi a 10 os ymgynghorydd yn unig, ac mewn orthopaedeg dewisol, gofyniad sylfaenol o 4 Cymal neu gyfwerth mewn rhestr orthopaedig ddewisol drwy'r dydd). Amserlen – o fewn chwe mis.

b) Dylai byrddau iechyd geisio achrediad ar gyfer yr holl Ganolfannau Llawfeddygol presennol (a restrir yn Atodiad C) gan y Cyfarwyddwr Meddygol Cenedlaethol (gweler Argymhelliad 20) o fewn 6 mis gan ddefnyddio meini prawf GIRFT safonol gan gynnwys y cynhyrchiant theatr gorau posibl (Atodiad D), ac achredu pob canolfan o fewn 12 mis. O fis Mehefin 2025, dylai'r cynnydd gael ei adrodd yn fisol i ran gyhoeddus cyfarfodydd byrddau iechyd, ac yn y cyfarfod Perfformiad a Chynhyrchiant misol (gweler Argymhelliad 18).

Ymateb Llywodraeth Cymru: 4a – Derbyn; 4b – Derbyn yn rhannol

Argymhelliad 4a – Derbyn

Mae mynd i'r afael ag amrywiad heb gyfiawnhad mewn amseroedd aros drwy fabwysiadu'r arferion gorau mewn gwaith rheoli theatrau yn gydran allweddol o'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi ac yn monitro gweithrediad, ac mae wedi datblygu'r ddealltwriaeth a'r dangosfyrddau angenrheidiol i hwyluso darpariaeth drwy ddealltwriaeth theatrau.

Drwy fframwaith cynllunio GIG Cymru, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi datgan yn glir ei fod yn disgwyl gweld amrywiad heb gyfiawnhad yn gostwng, ac mae disgwyl i hyn fod yn nodwedd amlwg o gynlluniau gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26. Bydd y cynnydd o ran gweithredu yn cael ei fonitro a'i gyhoeddi.

Bydd angen i fyrddau iechyd sefydlu byrddau optimeiddio theatrau, os nad yw'r rhain yn bodoli'n lleol yn barod, a phennu canlyniadau clir a fydd yn cael eu monitro a'u hadolygu yng nghyfarfodydd perfformiad byrddau iechyd.

Efallai y bydd angen gwneud gwaith pellach i ddiffinio ymhellach yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'amrywiad heb gyfiawnhad' ac er ei bod hi'n bosibl cymryd y camau i gyflawni'r argymhelliad hwn o fewn yr amserlenni, efallai na fydd hi'n ymarferol mynd i'r afael â phob math o amrywiad heb gyfiawnhad o fewn chwe mis.

Argymhelliad 4b – Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylai'r holl ganolfannau llawfeddygol sy'n cael eu sefydlu gyrraedd safonau cyson a bodloni manylebau cyflawni o ran cynhyrchiant, ansawdd a chyfraddau prosesu.

I sicrhau dull safonol o'r fath, rydyn ni'n cynnig fodd bynnag mai Llywodraeth Cymru ei hun sy'n arwain hyn, gan ei bod yn gallu dibynnu ar bwerau cyfarwyddo os bydd angen.

Felly, bydd Llywodraeth Cymru'n amlinellu'r safonau cyflawni ar gyfer canolfannau llawfeddygol ac yn disgwyl i fyrddau iechyd sicrhau bod y canolfannau'n gweithredu yn unol â'r safonau gofynnol. Bydd hyn yn destun monitro ac adolygu parhaus.

Argymhelliad 5

Dylid cadw ffrwd gyllido glir a dynodedig yn ganolog er mwyn sefydlu cronfa genedlaethol bwrpasol ar gyfer defnyddio'r sector annibynnol. Amserlen – o fewn chwe mis.

- Dylid defnyddio'r gronfa hon lle mae heriau tymor hwy yng nghyswllt cynaliadwyedd o ran galw/capasiti nad oes modd mynd i'r afael â nhw drwy fyrddau iechyd sy'n cyflawni gwelliannau gan ddefnyddio'r safonau cynhyrchiant newydd a'r ymyriadau GIRFT eraill a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.
- Dylai GIG Cymru ymrwymo i contract aml-flwyddyn a negodwyd yn genedlaethol gyda'r sector annibynnol ar gyfer offthalmoleg yn y lle cyntaf, gan ystyried dyblygu'r trefniant hwn ar gyfer orthopaedeg neu ddermatoleg os bydd y cam cyntaf hwn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Yna, dylai contractau gael eu rheoli'n rhanbarthol, gan fodelu llwyddiant contractio cataract De-ddwyrain Cymru yn 2024/25, gan sicrhau mynediad cyfartal i'r holl gleifion ar draws yr ôl troed rhanbarthol.
- Yn y tymor hirach, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu arfarniad opsiynau ar agor dewis o ddarparwr ar gyfer atgyfeirio clinigwyr a'u cleifion mewn rhai arbenigeddau penodol sydd dan bwysau mawr, a chynnwys y darparwyr annibynnol hyn ar y ddewislen dewis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

Mae GIG Cymru'n defnyddio'r sector annibynnol drwy amryw o drefniadau lleol a rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys mewnoli ac allanoli gan ac i amrywiaeth o ddarparwyr ar draws byrddau iechyd, yn ogystal â threfniadau cenedlaethol wedi'u hwyluso gan y Pwyllgor Cydgomisiynu Cenedlaethol a'i ragflaenydd.

Mae'r defnydd o'r sector annibynnol yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau, sy'n cael eu sbarduno'n bennaf gan gynlluniau galw a chapasiti byrddau iechyd lleol, argaeledd darparwyr preifat lleol yn erbyn modelau cyflawni byrddau iechyd, materion penodol i arbenigeddau, a chynlluniau gwella mynediad at lefel arbenigedd gyda'r adnoddau sydd ar gael.

O safbwynt polisi, mae disgwyl bod capasiti ac atebion mewnol i wella cynhyrchiant yn cael eu defnyddio cymaint â phosibl cyn ystyried yr angen am unrhyw atebion gan y sector annibynnol.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, os oes heriau cynaliadwyedd hirdymor o ran y capasiti sydd ar gael i ateb y galw, ac na ellir datrys y rhai drwy'r gweithgareddau craidd a'r cyfleoedd cynhyrchiant sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn, neu drwy'r camau galluogi â blaenoriaeth, gellir ystyried defnyddio'r sector annibynnol ar sail tymor hir a thymor hirach. Bydd hyn yn golygu bod angen gwerthuso'r cyllid sydd ar gael i gefnogi atebion ychwanegol. Mae disgwyl i hyn fod yn un o nodweddion y cynllun gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26, ynghyd â threfniadau rhanbarthol a chenedlaethol cryfach yn ôl yr angen.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun cenedlaethol ar gyfer endosgopi i fynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol o arosiadau hir.

- Dylai hyn gynnwys cyfalaf wedi'i flaenoriaethu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â byrddau iechyd eraill. Ym mhob maes arall, dylid canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau presennol yn briodol, gan greu set ddata defnyddio cenedlaethol (gan ddefnyddio meincnodau cynhyrchiant GIRFT) sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd yn y Cyfarfod Perfformiad a Chynhyrchiant newydd (gweler Argymhelliad 18). Dylid comisiynu AaGIC i sefydlu rhaglen newydd i ehangu hyfforddiant i Endosgopwyr Anfeddygol er mwyn ehangu'r gweithlu sydd ar gael yn gyflym. Dylid cyflwyno sbwng capsiwl gyda'r bwriad o leihau'r galw am endosgopi ymyriad. Amserlen – o fewn chwe mis

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu cynllun gweithredu 2019-2023 ar gyfer y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol, a oedd yn amlinellu nifer o nodau ar gyfer pob bwrdd iechyd. Ers hynny, gofynnwyd i fyrddau iechyd ddatblygu cynlluniau adfer rhanbarthol. Roedd y rhaglen genedlaethol wedi ystyried y rhain ond sicrwydd cyfyngedig a ddarparwyd. Felly, mae Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru wedi cyfarwyddo tîm y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol i gefnogi a monitro'r gwaith o weithredu'r cynlluniau hyn yn rhanbarthol. Amrywiol fu'r cynnydd hyd yma.

Mae tîm y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol yn canolbwyntio ar wella perfformiad yn erbyn mesurau cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ar draws y system. Bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod modd cynnwys data endosgopi yn y dangosfyrddau sy'n bodoli eisoes.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno ei bod hi'n hollbwysig rheoli a chyflawni trawsnewid ar gyfer endosgopi yn rhanbarthol, a bydd yn cefnogi'r ffocws rhanbarthol hwnnw gyda chyfres o ddisgwyliadau cenedlaethol, fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Mae'r rhaglen hyfforddi endosgopi anfeddygol yn rhan o Gynllun Tymor Canolig Integredig AaGIC a bydd academi hyfforddi'n cael ei datblygu fel rhan o Ganolfan Ragoriaeth De-ddwyrain Cymru, ac ateb Parc Iechyd Llantrisant. Mae endosgopi sbwng capsiwl yn cael ei gyflwyno gan y Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd a byddwn yn disgwyl gweld rhagor o gynnydd o ran cyflwyno dros y chwe mis nesaf.

Rydyn ni'n cydnabod bod y ddarpariaeth o ystafelloedd endosgopi yng Ngogledd Cymru yn annigonol; mae cais wedi'i wneud am gynllun cyflawni endosgopi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'w asesu gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 7

Gyda chymorth yr Uned Perfformiad a Chynhyrchiant (PPU) (gweler Argymhelliad 19), dylai rhanbarthau ddatblygu cynllun i greu gwasanaeth patholeg rhanbarthol sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Dylai'r cynllun gynnwys gweithredu patholeg ddigidol yn llawn fel galluogwr gwasanaeth allweddol i fynd i'r afael â phrinder o ran gweithlu, ystâd ac offer. Amserlen – o fewn chwe mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gofyniad am gynlluniau clir, rhanbarthol i sefydlu gwasanaethau patholeg cynaliadwy ac mae'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol wedi comisiynu cynlluniau patholeg ar gyfer pob rhanbarth.

Mae disgwyl y bydd rhanbarthau'n gallu datblygu cynlluniau amlinellol o fewn chwe mis, ond bydd hyn yn dibynnu ar gael capasiti angenrheidiol ar gael ym mhob rhanbarth. Disgwylir hefyd y bydd angen buddsoddiad refeniw a/neu gyfalaf sylweddol i ddatblygu atebion rhanbarthol o bosibl, sydd heb ei nodi eto. Felly bydd angen ystyried y camau nesaf ymhellach ar ôl i bob rhanbarth ddatblygu cynllun amlinellol.

Argymhelliad 8

Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyflwyno cynllun clir sy'n nodi sut mae'n bwriadu clirio ei ôl-groniad Uwchsaïn nad yw'n Obstetreg yn ystod 2025/26. Amserlen – o fewn tri mis.

- Dylid ei ddal i gyfrif am gyflawni hyn. Dylid defnyddio capasiti'r Sector Annibynnol os nad yw'r bwrdd iechyd wedi gwneud digon o gynnydd erbyn diwedd Chwarter 1.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Cydnabyddir a derbynnir bod heriau sylweddol a phenodol mewn cysylltiad â dulliau a byrddau iechyd, a bod hyn yn gofyn am atebion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu atebion diagnosteg a gofal a gynlluniwyd yn 2025/26. Mae'r rhain yn cynnwys y

gofyniad am gynllun i fynd i'r afael â'r ôl-groniad Uwchsain nad yw'n Obstetreg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dylid nodi y bydd hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol y bydd angen eu pennu.

Argymhelliad 9

Ni ddylid cynhyrchu unrhyw gynlluniau perfformiad canser ychwanegol ar gyfer 2025/26 a 2026/27. Yn hytrach, dylid canolbwyntio ar unwaith ar weithredu set gul, ond wedi'i hawdurdodi'n genedlaethol, o elfennau i'w cyflawni sy'n deillio o'r cynigion polisi presennol.

- Yn ganolog i hyn, gan fanteisio ar y Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol, dylai GIG Cymru nodi'r un newid llwybr a gaiff yr effaith fwyaf ar gyfer pob un o'r pum math o diwmor y mae eisoes wedi'u nodi fel rhai sy'n sbarduno perfformiad gwael: croen, GI is, y fron, gynaecoleg ac wroleg. Dylai'r rhain wedyn fod yn sail i gyfres lawer mwy cul a phenodol o weithgareddau cymorth cenedlaethol a sgysiau am atebolrwydd gyda byrddau iechyd, ochr yn ochr â'r ffocws lleol parhaus y bydd byrddau iechyd yn ei gael ar eu heriau mwy unigryw. Ar gyfer GI Is, dylai'r ffocws hwn fod yn ddull mwy cyson o weithredu FIT symptomatig, gyda set ddata newydd yn cael ei chreu ar draws adrannau endosgopi i asesu a yw capasiti'n cael ei flaenoriaethu'n briodol ar gyfer cleifion sydd wedi cael prawf FIT cadarnhaol. Ar gyfer gynaecoleg, dylai hyn fod yn ddarpariaeth gyson o wasanaethau gwaedu ar ôl y menopos; ar gyfer y fron, darparu gwasanaethau ar gyfer poen yn y fron; ac ar gyfer y croen, y ddarpariaeth fwy safonol o wasanaethau teledermatoleg mewn gofal sylfaenol. Ym mhob achos, dylai manylebau cenedlaethol sicrhau bod y mentrau hyn wedi'u lleoli mewn lleoliad gofal sylfaenol lle bynnag y bo modd, gan leihau atgyfeiriadau i ofal eilaidd yn gyffredinol yn hytrach na rhoi atgyfeiriadau i'r Llwybr Canser Sengl yn lle atgyfeiriadau nad ydynt yn rhai brys. Amserlen – o fewn 3 mis

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn ac mae Gweithrediaeth y GIG wedi cychwyn yr ymyriadau sy'n cael disgrifio.

Fel y mae'r adroddiad yn ei gydnabod, mae angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu asesiad o effaith y newidiadau i lwybrau a gynigir a sut maen nhw'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws pob bwrdd iechyd, yn ogystal ag effaith gwell a perfformiad a chynhyrchiant yn 2025/26 a thu hwnt.

Lle bo'n bosibl, mae profion brysbennu wedi'u cymeradwyo yn cael eu defnyddio mewn gofal sylfaenol a chymunedol i bennu'r lefel o risg yn well mewn atgyfeiriadau canser. Fel y mae'r adroddiad yn ei gydnabod, ni fydd hyn yn bosibl bob amser a bydd angen brysbennu rhai archwiliadau mewn gofal eilaidd o hyd. Bydd angen i

benderfyniadau ynghylch is-raddio atgyfeiriadau neu ryddhau â rhwyd diogelwch gael eu gwneud gan y gymuned glinigol berthnasol neu drwy ddilyn canllawiau clinigol cenedlaethol ar sail y newidiadau i'r llwybr penodol a gynigir.

Bydd argymhellion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaethau a threfniadau contractio gofal sylfaenol ar gyfer 2025/26.

Byddwn yn gwneud cynnydd ar yr argymhelliad hwn o fewn yr amserlen o dri mis sy'n cael ei hawgrymu, ond efallai y bydd gan elfennau unigol ddibyniaethau sy'n mynd â ni heibio'r amserlen honno.

Argymhelliad 10

Dylid creu cronfa wedi'i neilltuo, sy'n cael ei dal yn ganolog, er mwyn ariannu'n uniongyrchol y newidiadau i wasanaethau a bennwyd yn genedlaethol ac sy'n cael effaith uchel, sy'n cael eu disgrifio yn Argymhelliad 9, a gaiff eu monitro drwy adroddiad perfformiad y bwrdd iechyd (gweler Argymhelliad 21).

- Gellid creu'r gronfa hon drwy ailstrwythuro'r gwahanol symiau bach wedi'u neilltuo sy'n cael eu dal yn ganolog lle nad oes llawer o dystiolaeth o effaith; neu drwy gadw cyfran o unrhyw arian newydd sy'n cael ei fuddsoddi yn GIG Cymru yn y blynyddoedd ariannol i ddod. Rhaid i fyrddau iechyd ddangos y defnyddiwyd y cronfeydd hyn ar gyfer y cynlluniau penodol gan ddefnyddio casgliadau data cenedlaethol tryloyw, neu fel arall dylai'r cyllid gael ei ddal yn ôl neu fod yn destun mecanwaith adfachu sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac yn dryloyw (yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir). Amserlen – o fewn 3 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn a'r angen i adolygu ffrydiau cyllido polisi ar wahân ar gyfer mentrau penodol, gyda golwg ar eu cyfuno. Os mai cyfyngedig yw gwerth buddsoddiadau sy'n bodoli eisoes, dylid eu hailgyfeirio at fentrau cenedlaethol cryfach. Bydd hyn yn gofyn am adolygiad ar sail tystiolaeth o bob buddsoddiad i bennu a ddylid ei gynnal a'i ddatblygu ar sail Cymru gyfan, neu ei ailgyfeirio at ymyriadau eraill uchel eu gwerth.

I gefnogi hyn, cynhelir asesiad manwl o effaith bosibl ar berfformiad y newidiadau effaith uchel i wasanaethau a bennwyd yn genedlaethol, ac effaith yr ymyriadau hynny sydd eisoes yn cael cyllid drwy'r rhaglen Cancer.

Cydnabyddir bod potensial i neilltuo cyfran o gyllid yn y dyfodol i gefnogi gwasanaethau canser; byddai hyn yn rhan o'r dewisiadau sydd ar gael i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol wrth osod cyllidebau yn y dyfodol, yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael ac ar ddewisiadau a blaenoriaethau eraill.

Byddai angen adnoddau a chapasiti ychwanegol i gynnal yr adolygiad hwn a chyflawni'r argymhellion o fewn yr amserlen o dri mis a gynigir.

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cymhellion ariannol mewn gofal sylfaenol i wella perfformiad canser, gan ganolbwyntio ar waith diagnostig manwl a rhwydi diogelwch dilynol er mwyn lleihau nifer yr atgyfeiriadau a darparu rhagor o wybodaeth ddiagnostig ar gyfer brysbennu cleifion mewn gofal eilaidd.

- O ystyried y pum math o diwmor sy'n gyrru'r rhan fwyaf o gyfnodau aros hir yn genedlaethol, gallai cymhellion cychwynnol gynnwys rhwyd ddiogelwch uwch ar gyfer cleifion FIT negyddol, darparu gwasanaethau poen yn y fron, neu ddatblygu trefniadau theledermatoleg y tu allan i ofal eilaidd. Bydd hyn yn gofyn am newidiadau mewn contractau ar lefel clystyrau ac ar lefel ymarfer, gan gynnwys diweddarau dangosyddion y fframwaith llywodraethu erbyn mis Gorffennaf 2025. Amserlen – o fewn tri mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi amrywiaeth eang o brofion diagnostig mewn gofal sylfaenol. I fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag arbenigwyr clinigol, gan ddechrau gyda FIT/y colon a'r rhefr a theledermatoleg/y croen er mwyn deall sut byddai modd gwreiddio hyn mewn gwasanaethau diagnosteg cymunedol a'i ddatblygu gyda chyllid pwrpasol yn y contract neu fel rhan o gynlluniau clwstwr. Mae nifer o glystyrau eisoes yn cynnal clinigau llawdriniaethau bach a theledermatoleg ar gyfer cleifion lle mae amheuaeth o ganser y croen mewn lleoliadau gofal sylfaenol.

Byddwn yn archwilio sut byddai modd defnyddio cyllid yn well yn benodol i wella cyflawniad a pherfformiad gwasanaethau, yn ogystal â'r elfennau gweithredu ymarferol sy'n cael sylw yn yr adroddiad.

Oherwydd y byddai newidiadau i ddarparu gwasanaethau yn cynnwys trafodaethau contractiol, rydyn ni'n annhebygol o allu cyflawni'r argymhelliad hwn *yn llawn* o fewn tri mis.

Argymhelliad 12

Dylid uno'r Rhwydwaith Cancer a changen cancer y Rhaglen Adfer Gofal a Gynlluniwyd i greu un tîm sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol gofal cancer yng Nghymru a chyfarwyddo gweithgareddau gwella i gefnogi hyn, dan arweiniad uwch glinigydd ac uwch reolwr, gan adrodd i Reolwr Gyfarwyddwr y PPU a'r Cyfarwyddwr Meddygol Cenedlaethol. (gweler Argymhellion 19 a 20). Amserlen – o fewn tri mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn yn rhannol

Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyfeiriad strategol GIG Cymru ac mae Gweithrediaeth y GIG yn ei helpu i wneud hynny. Nid oes gan Weithrediaeth y GIG bwerau cyfarwyddo, ond mae gan Weinidogion bwerau perthnasol i roi cyfarwyddiadau. Mae camau wrthi'n cael eu cymryd i gyflawni'r argymhelliad hwn ac mae Gweithrediaeth y GIG yn ffurfio un tîm cancer sy'n uno'r swyddogaethau rhwydweithiau a gofal a gynlluniwyd. Bydd y tîm hwn yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Rhwydweithiau a Chynllunio yng Ngweithrediaeth y GIG.

Bydd Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru (gweler Argymhelliad 20) yn cadeirio'r bwrdd arweinyddiaeth cancer cenedlaethol newydd sydd wedi cael ei sefydlu i ddarparu un pwynt goruchwyllo systemau, ac rydyn ni'n rhag-weld y bydd Rheolwr Gyfarwyddwr Gweithrediaeth y GIG yn eistedd ar y bwrdd hefyd.

Argymhelliad 13

Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ddatblygu cynllun i ddechrau casglu a chyhoeddi data perfformiad manylach ar lefel tiwmor o ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27 fan bellaf.

- Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd gynhyrchu arfarniad o opsiynau ar gyfer cynhyrchu set ddata gysylltiedig yn cynnwys data am amseroedd aros cancer a diagnosteg, gan gynhyrchu gwybodaeth ar lefel llwybrau ar brif ysgogwyr diagnostig arosiadau hir ar lefel byrddau iechyd ac ar lefel genedlaethol. Amserlen – o fewn 12 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn a'r egwyddor o gasglu a chyhoeddi data perfformiad manylach ar lefel tiwmor.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cyhoeddi map datblygu ar gyfer data canser, sy'n rhan o lythyr cylch gwaith 2025/26 lechyd a Gofal Digidol Cymru. Bydd hyn yn cynnwys adrodd ar is-fathau o ganser ac adrodd data diagnostig yn well.

Byddwn yn ystyried, gydag lechyd a Gofal Digidol Cymru, beth gellir dechrau ei adrodd erbyn 2026/27, yn ogystal â pha mor ymarferol yw datblygu set ddata gwbl gysylltiedig ar draws canser a diagnosteg.

Argymhelliad 14

Dylai Byrddau lechyd wella prosesau, partneriaethau a buddsoddiadau mewn llwybrau cymunedol penodol i leihau oedi mewn llwybrau gofal. Amserlen – o fewn chwe mis.

14a) Rhaid i ysbytai sicrhau bod yr holl gleifion a dderbynnir yn cael eu rhoi ar lwybrau D2RA yn unol â'r Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty cenedlaethol, a dylid cyhoeddi oedi yn ôl llwybrau o fewn 3 mis.

14b) Dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad o'r defnydd o aseswyr dibynadwy ar draws y 7 bwrdd iechyd a'r 22 awdurdod lleol fis Mai 2025, a'i ailadrodd fis Hydref 2025. Dylid ei gyhoeddi fis Tachwedd gyda chyfiawnhad gan y bwrdd iechyd a/neu'r awdurdod lleol pan nad yw hyn wedi cael ei weithredu.

14c) Dylid cynnal astudiaeth gyflym o fewn 3 mis, gan Lywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd, i nodi pa grwpiau/llwybrau cleifion sy'n profi'r oedi hiraf mewn llwybrau gofal yn gyson, yn enwedig pan fyddant yn gysylltiedig â'r amser hir sy'n cael ei dreulio mewn adrannau achosion brys. Dylid defnyddio hyn i dargedu buddsoddiad mewn gwasanaethau cymunedol cysylltiedig cyllidebau'r gaeaf a'r dyfodol.

- Dylai'r Uned Perfformiad a Chynhyrchiant (gweler Argymhelliad 19) wedyn ddefnyddio oedi o ran llwybrau gofal ar gyfer cleifion sydd ddim angen unrhyw ofal ymlaen (llwybr 0) fel procsi ar gyfer lle mae'n rhaid gwella prosesau ysbyty i leihau oedi.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae galluogi gwelliannau o ran oedi yn achos llwybrau gofal yn cael ei dderbyn a'i gydnabod fel un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys fel un o flaenoriaethau'r Prif Weinidog i wella mynediad at ofal cymdeithasol, a chamau gweithredu her 50 diwrnod Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal

Cymdeithasol yn 2024/25. Mae sicrhau gwelliannau parhaus yn rhan o gynllun y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng 2025/26, a fydd yn canolbwyntio'n fanylach ar lif cleifion. Mae dangosfyrddau manwl sy'n adolygu'r metrigau hyn ar waith a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r broses uwchgyfeirio'n cael ei defnyddio yn ôl yr angen i gefnogi cynnydd parhaus.

O ran cyhoeddi gwybodaeth am oedi yn ôl llwybrau, mae'r wybodaeth hon ar gael yn barod; bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu proses ar gyfer ei chyhoeddi'n rheolaidd.

Mae Gweithrediaeth y GIG wrthi'n archwilio llwybrau gofal. Mae'r argymhelliad hwn gan y Grŵp Cynghori Gweinidogol yn cyd-fynd â'r canfyddiadau hyd yma a bydd archwiliad pellach o gydymffurfedd â chanllawiau'r asesydd dibynadwy yn cael ei gomisiynu fel rhan o archwiliad cam 2 ar ôl cwblhau'r adolygiad cychwynnol yn ystod y misoedd nesaf.

Bydd astudiaeth gyflym i nodi'r grwpiau cleifion / y llwybrau sy'n wynebu'r oedi hiraf yn gyson yn cael ei gomisiynu drwy raglen Chwe Nod Gweithrediaeth y GIG, gan adeiladu ar waith diweddar a wnaed fel rhan o'r her 50 diwrnod. Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru'n cael eu holi ynghylch pa mor ymarferol yw cysylltu data ar lefel cleifion rhwng Adrannau Achosion Brys ac adrannau cleifion mewnol er mwyn gallu deall unrhyw berthynas rhwng arosiadau hir mewn Adrannau Achosion Brys ac arosiadau hir fel claf mewnol / oedi mewn llwybrau gofal. Yn y cyd-destun hwnnw, mae gwaith ar gysylltu data ambiwlansys, Adrannau Achosion Brys a chleifion mewnol ar gyfer pobl sydd wedi cwmpo ond heb gael anaf (neu bobl sydd wedi cwmpo ac sydd â mân anafiadau neu salwch) eisoes wedi cael ei wneud, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo byrddau iechyd i fuddsoddi cyllid rhaglen sy'n bodoli eisoes (Chwe Nod) i ddarparu gwasanaethau 24/7 ar gyfer ymateb i gwympiadau yn y gymuned.

Disgwylir i fyrddau iechyd gyflawni'r gwelliannau gofynnol drwy adnoddau a ffrydiau cyllido sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid ar y buddsoddiad angenrheidiol mewn llwybrau cymunedol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a blaenoriaethu ffrydiau cyllido sy'n bodoli eisoes, fel y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Argymhelliad 15

Dylai Byrddau Iechyd sicrhau na fydd unrhyw drosglwyddo o ambiwlans yn cymryd mwy na 45 munud, gan ganolbwyntio ar gyflawni'r targed o 15 munud lle bynnag y bo modd. Amserlen – o fewn chwe mis.

- Lle nad yw'r targed o 15 munud ar gyfer amser trosglwyddo yn bosibl, dylid cyflwyno uchafswm o 45 munud ar gyfer trosglwyddo erbyn mis Hydref 2025.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn yn rhannol

Mae'r disgwyliad i fyrddau iechyd weithredu'r canllawiau trosglwyddo cleifion ambiwlans wedi cael ei sefydlu fel un o'r camau galluogi yn fframwaith cynllunio'r

GIG ar gyfer 2025/26 (mae'r canllawiau hyn yn cynnwys disgwyliad i drosglwyddo cleifion ambiwlans o fewn 15 munud).

Yn dilyn hyn, mae grŵp cyflawni gwelliannau ar gyfer trosglwyddo cleifion ambiwlans wedi cael ei sefydlu, ac mae'r gwaith wedi dechrau. Mae hyn yn cael ei arwain a'i gefnogi'n glinigol gan Lywodraeth Cymru ac arweinwyr systemau cenedlaethol eraill.

Y bwriad yw datblygu cynllun yn ystod chwarter cyntaf 2025/26 i asesu parodrwydd posibl GIG Cymru i sicrhau amser trosglwyddo cleifion ambiwlans o ddim mwy na 45 munud mewn argyfwng o fewn chwe mis, a nodi unrhyw heriau cyflawni, gofynion cyfathrebu a risgiau cysylltiedig.

Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn "yn rhannol" mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer gweithredu'n gyffredinol.

Argymhelliad 16

Dylid adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, gan ddefnyddio adroddiadau perfformiad misol y bwrdd iechyd (gweler Argymhelliad 21). Amserlen – o fewn tri mis.

- Dylai byrddau iechyd sicrhau bod adroddiadau perfformiad yn cyd-fynd â metrigau'r 6 Nod cyn gaeaf 2025/26 ac yn cael eu cyhoeddi o fis Mehefin ymlaen. Dylai'r adroddiad gynnwys data perfformiad pedair awr wedi'i ddilysu a heb ei ddilysu. Dylai'r grŵp clinigol sy'n adolygu safonau perfformiad sicrhau bod metrigau perfformiad yn cwmpasu'r llwybr Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng llawn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Bydd asesiad cyflym o'r data Chwe Nod yn cael ei gynnal i bennu beth gellir ei adrodd yn gywir ac yn ddibynadwy i'r cyhoedd ar ben yr wybodaeth sydd eisoes ar gael, a'i integreiddio mewn adroddiadau byrddau iechyd a phwyllgorau sy'n bodoli eisoes. Bydd hyn hefyd yn edrych ar y potensial i gyfeirio'n fwy effeithiol at wybodaeth sydd eisoes wedi'i chyhoeddi, os yw hynny ar gael.

Mae'r holl ystadegau gwladol yn cael eu dilysu a'u cyhoeddi ar ôl bod yn destun prosesau sicrhau ansawdd cadarn. Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru'n cael data gan fyrddau iechyd drwy lechyd a Gofal Digidol Cymru ar ôl i'r canllawiau perthnasol gael eu dilyn.

Bydd rhoi System Data Gofal Argyfwng Cymru ar waith dros y 6 i 18 mis nesaf yn ei gwneud hi'n bosibl cyhoeddi set ddata sy'n fwy cadarn a chyson yn glinigol, a fydd yn helpu i roi mesurau ansawdd mwy deallus ar waith ac yn cynnwys diweddarau'r canllawiau amseroedd aros cyfredol.

Mae fframwaith perfformiad ambiwlansys mewn argyfwng wedi cael ei gytuno ac mae adolygiad ail gam o ddigwyddiadau 999 nad ydynt wedi'u categorïddio fel *arestio* neu *argyfwng* ar waith. Disgwylir y bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael adroddiad ar hyn fis Mehefin 2025.

Mae adolygiad cwmpasu o fesurau Adrannau Achosion Brys wedi cael ei gynnal. Bydd fframwaith perfformiad Adrannau Achosion Brys yn cael ei ddatblygu ar sail yr hyn sy'n cael ei ddysgu o'r gwaith mesurau ambiwlans, a disgwylir y bydd yn cael ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol i'w ystyried yn ystod chwarter cyntaf 2025/26. Bydd hyn yn cynnwys metrigau perfformiad ar gyfer y llwybr Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng llawn.

Argymhelliad 17

Dylid cyflwyno fframwaith cyson ar gyfer lefelau uwchgyfeirio yn y system Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng erbyn mis Hydref 2025, gan ddefnyddio'r fframwaith OPEL yn Lloegr, wedi'i addasu ar gyfer y gwasanaeth yng Nghymru lle bo angen. Amserlen – o fewn chwe mis.

- Dylai'r argymhelliad hwn gael ei alluogi drwy ddatblygu adnodd cymorth digidol "Unwaith dros Gymru".

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

Cafodd fframwaith statws uwchgyfeirio GIG Cymru ei lansio ym mis Rhagfyr 2024. Er eglurder, mae hyn yn cyfeirio at statws uwchgyfeirio gweithredol sefydliadau o ddydd i ddydd mewn ymateb i heriau a chapasiti gweithredol, yn hytrach na'r fframwaith ymyrryd ac uwchgyfeirio sy'n gysylltiedig â pherfformiad cyrff y GIG yng Nghymru.

Wrth ddatblygu fframwaith statws uwchgyfeirio GIG Cymru, cafodd fframweithiau cymaradwy eraill sydd ar waith eu hystyried, gan gynnwys y fframwaith lefelau uwchgyfeirio pwysau gweithredol (OPEL).

Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod bod anghysondeb yn y ffordd mae cyrff GIG Cymru yn adrodd ar hyn o bryd, a bod angen safoni'r dull gweithredu hwn. Mae amlinell gychwynnol o'r dull sydd ei angen i gael rhagor o safoni wrthi'n cael ei llunio a bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r camau gweithredu sydd eu hangen ar sail systemau i fynd i'r afael ag unrhyw anghysondeb.

Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth Cymru gyfuno'r holl gyfarfodydd atebolrwydd ac uwchgyfeirio gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau mewn cyfarfodydd Perfformiad a Chynhyrchiant misol unigol, gyda ffocws allweddol ar gyflawni yn erbyn meysydd allweddol perfformiad a chynhyrchiant, a chynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad hwn. Amserlen – o fewn tri mis.

- Dylai Prif Swyddog Gweithredol GIG Cymru gadeirio pob cyfarfod Perfformiad a Chynhyrchiant. Dylai Prif Swyddog Gweithredol y bwrdd iechyd fynychu'r cyfarfodydd, ac o leiaf y cyfarwyddwr meddygol, y cyfarwyddwr nyrsio, y cyfarwyddwr cyllid a'r rhai sy'n gyfrifol am berfformiad gweithredol.
- Dylid rhannu allbynnau cyfarfodydd perfformiad ag Ysgrifennydd y Cabinet a Chadeirydd y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth berthnasol, gan uwchgyfeirio eitemau i'w trafod fel y bo'n briodol. Byddai hyn yn helpu i egluro a disgrifio rôl y Prif Weithredwr a Chadeirydd pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth, gan ganiatáu i'r Prif Weithredwr ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chaniatáu i'r Chadeirydd ganolbwyntio ar lywodraethu'r bwrdd, diwylliant a rheoli'r berthynas strategol ag arweinyddiaeth etholedig yr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Byddai hefyd yn lliniaru'r dyblygu beichus ar amser ac ymdrech sy'n cael ei greu gan y peirianwaith goruchwyllo gweithredol cyfochrog sydd ar waith ar hyn o bryd rhwng Ysgrifennydd y Cabinet/Chadeirydd y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth a Phrif Weithredwyr Ymddiriedolaethau/byrddau iechyd GIG Cymru.
- Dylai'r cyfarfodydd perfformiad misol ddisodli'r holl gyfarfodydd uwchgyfeirio a pherfformiad misol cyfredol perthnasol. Felly, dylai hyn ddisodli cyfarfodydd presennol y Cyd-dîm Gweithredol, Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig, goruchwyllo ac uwchgyfeirio, a Bwrdd Perfformiad y GIG. Felly, dylid gweithredu'r fframwaith Goruchwyllo ac Uwchgyfeirio drwy'r cyfarfodydd perfformiad hyn.
- Dylai'r gostyngiad cysylltiedig mewn rhyngweithio a chyfarfodydd uwchgyfeirio roi mwy o amser i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ganolbwyntio ar y dasg perfformiad a chynhyrchiant uniongyrchol. Ochr yn ochr â hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cryfhau'r cymhelliant a'r sanctiynau sy'n gysylltiedig â chyflawni a pheidio â chyflawni.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr angen i symleiddio trefniadau cyflawni ac atebolrwydd cyfredol lle bo angen, ac mae'n cymryd camau i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys camau fel lleihau nifer y blaenoriaethau, darparu cyfeiriad clir yn y fframwaith cynllunio, a datblygu dull newydd o helpu Ysgrifennydd y Cabinet dros iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddal Cadeiryddion GIG Cymru yn atebol yn 2025/26.

Cydnabyddir bod amllder y rhyngweithio â chyrff iechyd, yn enwedig byrddau iechyd, wedi cynyddu o ganlyniad i'r cynnydd yn statws uwchgyfeirio cyrff GIG Cymru a'r camau neu'r cyfeiriad cynyddol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i alluogi cynnydd mewn meysydd blaenoriaeth allweddol.

Byddwn yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r argymhelliad sy'n adlewyrchu'r egwyddor a gydnabyddir yn adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogol (ac yr ydym yn cytuno â hi) y dylem anelu at leihau nifer y cyfarfodydd ond ar yr un pryd cryfhau ffocws ac atebolrwydd (gan gydnabod hefyd bod rhagor o uwchgyfeirio yn gofyn am ragor o waith craffu er mwyn gwella'r ddarpariaeth ac y dylem ganiatáu gwahaniaethu ac ymreolaeth haeddiannol i adlewyrchu cynnydd). Byddwn yn nodi ein casgliadau o fewn y mis.

Argymhelliad 19

Dylid penodi rheolwr gyfarwyddwr i reoli a goruchwyllo Gweithrediaeth y GIG yn uniongyrchol, a fydd yn cael ei hail-enwi'n Uned Perfformiad a Chynhyrchiant (PPU). Amserlen – penodiad o fewn 3 mis.

- Dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr fod ar lefel ddigon uchel i gefnogi Prif Swyddog Gweithredol GIG Cymru i ddal ei gydweithwyr yn y GIG i gyfrif. Dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr fod yn atebol i Brif Swyddog Gweithredol GIG Cymru a bod yn aelod o Dîm Cyfarwyddwyr Gweithredol Llywodraeth Cymru. Dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr fod ag atebolrwydd rheolaeth linell uniongyrchol ar gyfer cyllideb ac adnoddau'r Uned Perfformiad a Chynhyrchiant, a fydd yn cynnwys y swyddogaethau a'r adnoddau sy'n perthyn i Weithrediaeth GIG Cymru ar hyn o bryd. Dylid ailenwi'r adnodd hwn o tua 400 o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn yn Uned Perfformiad a Chynhyrchiant. Dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu halinio'n dryloyw â'r un nod o wella cynhyrchiant a pherfformiad y GIG ledled Cymru. Mae opsiynau ar gyfer sut mae'r adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys cyfeirio allan at Fyrddau lechyd a rhanbarthau i gefnogi ymyriadau gwella penodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn yn rhannol

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi ei fwriad i gryfhau arweinyddiaeth weithredol Gweithrediaeth y GIG, gan symleiddio'r sefydliad a sicrhau ei fod yn meddu ar y cymysgedd cywir o gapasiti a sgiliau yn y meysydd cywir i gyflawni'r swyddogaethau sy'n ofynnol gennym. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod adnoddau a chyllid yn cyd-fynd yn llawn â blaenoriaethau a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y nod allweddol o wella perfformiad.

Byddwn yn penodi Rheolwr Gyfarwyddwr. Fodd bynnag, ni all yr unigolyn hwn fod yn aelod o Dîm y Cyfarwyddwr Gweithredol yn Llywodraeth Cymru ar yr un pryd. Mae gwahaniaeth cyfreithiol rhwng staff Gweithrediaeth y GIG sy'n cael eu cyflogi gan GIG Cymru a'u cynnal gan lechyd Cyhoeddus Cymru, ac aelodau o Dîm y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen i'r Rheolwr Gyfarwyddwr o reidrwydd weithio'n agos gyda Thîm y Cyfarwyddwr Gweithredol.

Rydyn ni'n cytuno bod angen ailenwi Gweithrediaeth y GIG i adlewyrchu ei swyddogaeth yn well ac yn credu ei bod hi'n bwysig bod ei theitl yn cyfeirio at

berfformiad er mwyn rhoi'r gwelededd angenrheidiol i'r flaenoriaeth hollbwysig hon. Bydd gan Weithrediaeth y GIG gyfrifoldebau parhaus pwysig mewn cysylltiad ag, er enghraifft, gwella, gwerth, cynaliadwyedd ac arbenigedd clinigol i wella gwasanaethau (sydd holl yn seiliedig ar yr ymrwymiad hwnnw i wella perfformiad), felly rydyn ni'n cynnig mai'r enw newydd fydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Argymhelliad 20

Dylid cryfhau arweinyddiaeth feddygol o dan arweinyddiaeth swydd newydd Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru. Mae hon yn swydd newydd ar wahân i swydd y Prif Swyddog Meddygol presennol ac yn gyfartal o ran statws. Amserlen – penodi o fewn 3 mis.

- Dylai cyfrifoldebau blaenoriaethol y Cyfarwyddwr Meddygol gynnwys:
 - Datblygu diwylliant sefydliadol sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu GIG yng Nghymru sy'n gwella'n barhaus, yn cael ei arwain yn glinigol ac yn cael ei yrru gan ddata.
 - Angori a chysoni capasiti a gallu'r arweinyddiaeth glinigol o fewn y PPU a GIG Cymru â'r agenda perfformiad corfforaethol, cynhyrchiant a thrawsnewid clinigol.
 - Drwy gyfarwyddwyr meddygol y byrddau iechyd a'r timau arweinyddiaeth glinigol cysylltiedig, gyrru gweithrediad argymhelliad GIRFT y manylir arno yn yr adroddiad hwn ac a ailadroddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn ei lythyr ar Gadeiryddion y GIG ar 20fed Rhagfyr 2024.
 - Drwy gyfarwyddwyr meddygol y byrddau iechyd a'r timau arweinyddiaeth glinigol cysylltiedig, darparu'r arweinyddiaeth glinigol i yrru a chefnogi'r argymhellion a nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn o ran gofal a gynlluniwyd, gofal brys, canser a diagnosteg.
 - Gweithio gyda'r rhanbarthau, y byrddau iechyd a'r rhwydweithiau clinigol i gefnogi, datblygu a gweithredu atebion rhanbarthol i wasanaethau bregus fel y trafodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.
 - Drwy gyfarwyddwyr meddygol y byrddau iechyd a'r timau arweinyddiaeth glinigol cysylltiedig, gyrru a blaenoriaethu gweithrediad Llwybrau Iechyd (Rhaglen Cynghrair Pathway).
 - Drwy gyfarwyddwyr meddygol y byrddau iechyd a'r timau arweinyddiaeth glinigol cysylltiedig, gyrru gweithrediad agenda Gwerth a Chynaliadwyedd y Bwrdd gan gynnwys ymyriadau llwybr gwerth uchel a'r rhaglen waith rheoli meddyginiaethau.
 - Rhoi mecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod cynlluniau swyddi, arfarniadau ac ailddilysu yn cyd-fynd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen cryfhau arweinyddiaeth feddygol i wella cynhyrchiant a pherfformiad, gan gynnwys y meysydd ehangach sydd wedi'u nodi yn yr argymhelliad hwn (ee rhoi GIRFT ar waith, Llwybrau Iechyd, gwerth a

chynaliadwyedd), yn ogystal â'r argymhellion penodol ynghylch cynhyrchiant a pherfformiad yn adroddiad y Grŵp Cyngori Gweinidogol.

Prif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru yw Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru ac mae'n cael ei chefnogi gan ddau Ddirprwy Brif Swyddog Meddygol; Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (y GIG) a Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch). Mae'r strwythur hwn wedi cael ei gryfhau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydyn ni'n cynnig penodi'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (y GIG) yn Gyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru. Bydd yn meddu ar gyfrifoldeb dirprwyedig penodol i ddarparu arweinyddiaeth feddygol i Weithrediaeth y GIG. Bydd hyn yn darparu'r arweinyddiaeth glinigol gryfach i holl waith Gweithrediaeth y GIG yn y ffordd a ragwelir gan yr argymhelliad, ac mae'n cyd-fynd â'n trefniadau statudol sy'n mynnu bod penderfyniadau a chyfarwyddiadau ynghylch arweinyddiaeth feddygol i sefydliadau yn dod gan Lywodraeth Cymru (ar ran Gweinidogion) yn y pen draw.

Argymhelliad 21

Argymhellir bod byrddau iechyd yn comisiynu Confederasiwn GIG Cymru i ddatblygu dangosfwrdd perfformiad safonol ar gyfer byrddau iechyd. Dylid defnyddio'r dangosfwrdd yn y rhan gyhoeddus o gyfarfodydd y bwrdd ac i gefnogi'r cyfarfodydd Perfformiad a Chynhyrchiant. Amserlen – o fewn tri mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Mae dangosfyrddau perfformiad Cymru gyfan, sy'n seiliedig ar y fframwaith perfformiad cenedlaethol, yn cael eu cynhyrchu'n fisol a'u darparu i Fwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru.

Mae gan fyrddau iechyd fynediad at y dangosfwrdd perfformiad cenedlaethol ac maen nhw wedi datblygu fersiynau lleol o'r dangosfwrdd cenedlaethol ar gyfer eu bwrdd cyhoeddus mewn adroddiadau lleol. Mae rhywfaint o amrywioldeb ac anghysondeb oherwydd bod metrigau a blaenoriaethau lleol wedi'u cynnwys.

Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r metrigau perfformiad yn y dangosfyrddau cenedlaethol ac i sicrhau cysondeb, bydd yn sefydlu templed safonol lleol (ac yn trafod hyn gyda byrddau iechyd lleol a Chonffederasiwn GIG Cymru ar sail Cymru gyfan). Byddwn yn cwblhau'r gwaith hwn o fewn tri mis. Byddwn wedyn yn mynnu bod byrddau iechyd yn sicrhau bod dangosfwrdd lleol yn y fformat safonol yn cael ei ddefnyddio ar fyrddau cyhoeddus i ganiatáu dadansoddiad cyson a chymaradwy. Wrth gwrs gellir ategu hyn â deallusrwydd lleol i'w gwneud hi'n bosibl archwilio materion lleol yn ddwfn, ond heb gyflwyno hynny mewn ffordd sy'n dad-safoni'r dangosfwrdd perfformiad.

Argymhelliad 22

Dylid datblygu model cynhyrchiant pob ffactor a model cynhyrchiant y gweithlu ar gyfer GIG Cymru, a'u rhoi ar waith cyn y gyllideb nesaf. Amserlen – o fewn 12 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr her sy'n cael ei hadlewyrchu yn adroddiad y Grŵp Cyngori Gweinidogol ynghylch cynhyrchiant y gweithlu – her y mae llawer o systemau gofal iechyd yn ei hwynebu.

Yn benodol, mae'r adroddiad yn cyfeirio at y ffaith fod y twf yn y gweithlu wedi cynyddu ers pandemig Covid-19 ar gyfradd uwch na'r twf mewn gweithgarwch dros yr un cyfnod. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr her hon, ond mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad yn cynrychioli'r gweithlu meddygol a rhai mesurau gweithgarwch craidd yn unig, ac nid yw sail y gymhariaeth ar draws systemau yn gyson gymaradwy.

Cydnabyddir hefyd mai blaenoriaeth GIG Cymru, drwy'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd a threfniadau eraill, oedd canolbwyntio ar gamau penodol i fynd i'r afael ag amrywiad a gwella cynhyrchiant, fel lleihau gwariant asiantaethau, a bod y camau manwl i wella cynhyrchiant wedi cael blaenoriaeth dros ddatblygu mesuriad lefel uchel o gynhyrchiant systemau. Cydnabyddir y byddai mantais o ddatblygu mesur cryfach o gynhyrchiant ar gyfer y system gyfan, ochr yn ochr â'r camau manwl sy'n cael eu cymryd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu'r gwaith hwn dros y 12 mis nesaf, gan ystyried pa fodel a methodoleg i'w defnyddio, ac a ddylid datblygu'n fewnol neu ddefnyddio modelau allanol.

Argymhelliad 23

O gylch cyfarfodydd y bwrdd iechyd ym mis Mehefin ar gyfer blwyddyn 2025/26 ymlaen, dylid adrodd ar niferoedd y gweithlu a data cynhyrchiant yng nghyfarfod cyhoeddus misol y bwrdd iechyd. Dylai hyn gynnwys data ar weithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol a'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS), a gweithlu contractwyr annibynnol eraill. Gan weithio gyda'r Uned Perfformiad a Chynhyrchiant (PPU), dylai'r byrddau iechyd gytuno ar dargedau blynyddol ar gyfer cynhyrchiant y gweithlu. Amserlen – o fewn 3 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 22, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr her a nodir gan y Grŵp Cyngori Gweinidogol mewn perthynas â chynhyrchiant y gweithlu.

Mae niferoedd y gweithlu a data cyfwerth ag amser cyflawn eisoes yn rhan o waith adrodd byrddau ar draws cyrff y GIG. Mae'r Grŵp Cyngori Gweinidogol yn awgrymu y dylid adrodd data cynhyrchiant arall yn fisol i Fyrddau ochr yn ochr â data'r gweithlu. Rydyn ni'n cytuno y byddai hyn yn ddefnyddiol.

I gyflawni'r argymhelliad hwn, rydyn ni'n cynnig, ar ôl datblygu'r model cynhyrchiant y gweithlu neu'r model cynhyrchiant cyfan yn Argymhelliad 22, bod hwn yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer adrodd ar lefel bwrdd iechyd. Yn y cyfamser, dylai cyrff y GIG archwilio ac ystyried yr argymhelliad hwn, a mabwysiadu dull lleol os yw'r data'n caniatáu hynny, ac fel cam sylfaenol dylent adrodd i gyfarfodydd bwrdd cyhoeddus misol ar gynnydd y camau galluogi yn Fframwaith Cynllunio 2025/28 sy'n gysylltiedig â gwella cynhyrchiant.

Argymhelliad 24

Dylai AaGIC weithio gyda'r PPU (gweler Argymhelliad 19) i sicrhau bod rhaglenni arweinyddiaeth ar waith i gefnogi'r "tri ar y brig" mewn gwasanaethau clinigol byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Amserlen – o fewn chwe mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae pwysigrwydd rhaglenni datblygu arweinyddiaeth effeithiol i gefnogi arweinwyr GIG Cymru yn cael ei gydnabod ac mae'n rhan o weithgarwch sylweddol yn y GIG yng Nghymru.

Cydnabyddir yr egwyddor ei bod hi'n bwysig ystyried a oes angen rhaglenni arweinyddiaeth ychwanegol neu a ddylid cryfhau rhaglenni sy'n bodoli eisoes er mwyn cefnogi datblygiad parhaus perfformiad, cynhyrchiant a'r agenda trawsnewid gwasanaethau.

Drwy'r llythyr cylch gwaith 2025/26 gan Lywodraeth Cymru, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi cael ei gyfarwyddo i gryfhau'r rhaglen arweinyddiaeth sy'n cefnogi rheolwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Cyfeirir at y 'tri ar y brig' yn yr adroddiad fel meddyg arweiniol, nyrs arweiniol a rheolwr arweiniol (yn ogystal â gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd arweiniol). Hefyd, mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai'r argymhelliad hwn fod yn berthnasol i'r holl rolau arweinyddiaeth sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r agenda hon dros amser.

Argymhelliad 25

Dylai GIG Cymru gomisiynu map cynhwysfawr gan lechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ar gyfer cyflawni Cenhadaethau 2 a 3 ei Strategaeth Sefydliadol dros gyfnod o 24 mis, i'w gyhoeddi o fewn 6 mis. Ni ddylai'r un bwrdd iechyd fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu unrhyw Gofnod Meddygol Electronig neu Ap nes bod y map wedi'i sefydlu. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i gysoni Ap GIG Cymru ag Ap GIG Lloegr. Amserlen – o fewn chwe mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

Mae lechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cael llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer 2025/26. Mae'r gwaith o ddatblygu'r bensaernïaeth genedlaethol yn mynd rhagddo.

Mae Cenhadaeth 2 y llythyr cylch gwaith yn cynnwys diagnosteg,

Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (EMPA), Ap GIG Cymru, System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS), Porth Clinigol Cymru, brechlynnau a'r bensaernïaeth ddigidol, a dylai'r rhan fwyaf o'r rhaglenni hyn weld cyngor sylweddol o fewn 24 mis.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu lechyd a Gofal Digidol Cymru i arwain gwaith ar y Bensaernïaeth Darged Genedlaethol ar y cyd â GIG Cymru i fapio'r bensaernïaeth fel y mae ar hyn o bryd a diffinio'r bensaernïaeth yn y dyfodol er mwyn cefnogi buddsoddiad mewn trawsnewid digidol yn y dyfodol.

Mae'r is-argymhellion yn cael eu derbyn mewn perthynas â pheidio â bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Cofnod Meddygol Electronig/Cofnod lechyd Electronig ar lefel bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth nes bod y map wedi'i sefydlu.

Mae'r rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol yn cynnwys Storfa Data Gofal wedi'i sbarduno gan safonau i sicrhau'r gallu i ryngweithredu ac amgylchedd data diogel. Mae Canllawiau Cynllunio Technegol GIG Cymru ar gyfer 2025/28 yn cynnwys cam gweithredu sy'n nodi y dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gael cynlluniau ar waith i lifo data i'r Adnodd Data Cenedlaethol, a gwneud rhagor o ddefnydd o APIs sy'n gysylltiedig â'r Adnodd.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi disgwyliadau penodol ar gyfer y system mewn cysylltiad ag Ap y GIG yn 2025/26 ac mae cydrannau penodol yn flaenoriaeth yn y cam datblygu hwn. Cydnabyddir y dylai swyddogaethau Ap y GIG fod yn debyg ar draws Cymru a Lloegr, ac y byddai manteision yn gysylltiedig â hynny, a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a gweithredu'r ap o hyn ymlaen. Fodd bynnag, mae angen i'r drefn o ddatblygu a chyflwyno swyddogaethau adlewyrchu blaenoriaethau GIG Cymru.

Argymhelliad 26

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda chyd-weithwyr gweinidogol i flaenoriaethu'r angen i fynd i'r afael â pholisi rhannu data Cymru a sefyllfa gysylltiedig y fframwaith gyda'r bwriad o gyflymu'r gwaith o ymgorffori setiau data yn yr Adnodd Data Cenedlaethol. Amserlen – o fewn 12 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae cynllun wedi cael ei ddatblygu sy'n cynnwys y gweithgareddau a'r camau gofynnol i ddarparu'r eglurder gofynnol i'r system drwy gyfuniad o gynigion o ran deddfwriaeth a pholisi.

Argymhelliad 27

Yn ogystal â'r cynllun ar gyfer patholeg ac endosgopi (gweler Argymhellion 6 a 7), dylai byrddau iechyd weithio gyda'i gilydd fel rhanbarthau i nodi dau wasanaeth bregus blaenoriaethol i gael sylw yn 2025/26 ac wedyn dau arall yn flynyddol ac yn barhaus. Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn, bydd y PPU yn darparu adnoddau a chymorth. Amserlen – o fewn 12 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd angen dull cryfach ar lefel ranbarthol o bosibl ar atebion gwasanaethau cynaliadwy sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i'r boblogaeth. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi'r disgwyliad hwn i fyrddau iechyd yng Nghymru ac wedi cymryd camau i gryfhau gweithio ranbarthol, a'r strwythurau a'r mecanweithiau cyflawni cysylltiedig.

Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen i gyflawni'r agenda hon fel rhan o'r broses o aildrefnu'r adnoddau yng Ngweithrediaeth y GIG fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 19.

Mae'n debygol y bydd y newidiadau hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn termau cyfalaf neu refeniw (neu'r ddau), ond efallai y byddant yn gyfle hefyd i wella'r defnydd o adnoddau a gwella cadernid gwasanaethau a'r gweithlu. Bydd angen arfarniadau manwl o'r opsiynau ac achosion cadarn i gefnogi newidiadau sylweddol, yn ogystal â sicrhau bod ystyriaeth angenrheidiol yn cael ei rhoi i'r asesiad effaith sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau, ac i drafod â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd byrddau iechyd, ar lefel ranbarthol, yn blaenoriaethu'r agenda hon ac yn gwneud cynnydd sylweddol dros y 12 - 24 mis nesaf mewn meysydd lle nodir bod blaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn "yn rhannol" dim ond mewn perthynas â'r amserlen, ond cydnabyddir bod angen gwneud cynnydd ar frys.

Argymhelliad 28

Dylid cynyddu'r dyraniad cyfalaf ar sail flynyddol a pharhaus, ac yn gyson â'r broses cynllunio a blaenoriaethu flynyddol. Amserlen – o fewn 12 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

Cydnabyddir bod angen cynnydd cyson a pharhaus yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer cyllideb gyfalaf iechyd. Mae angen hyn ar sail tymor hirach er mwyn rhoi sicrwydd o ran cyllid i raglenni cyfalaf tymor hirach.

Mae gwaith a chynnydd sylweddol wedi cael ei wneud ar ofynion cyfalaf tymor hirach y gwasanaeth, ac ar y rhagolwg deg mlynedd a'r fframwaith blaenoriaethu.

Mae'r argymhelliad hwn y tu hwnt i awdurdod y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar a'r Prif Grŵp Gwariant ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae penderfyniadau ynghylch cyllidebau yn y dyfodol yn amodol ar benderfyniadau ehangach Llywodraeth Cymru a'r Cabinet ynghylch pennu cyllidebau yn y dyfodol, a fydd yn dibynnu ar ddull gweithredu cyffredinol y gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael.

Argymhelliad 29

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r opsiynau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer cynhyrchu cyfalaf heb fod o'r trysorlys i'w ystyried gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol cyn cylch cyfalaf 2026/27. Amserlen – o fewn 9 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd angen ffynonellau cyfalaf amgen ac atebion gwahanol i ymateb i raddfa'r her cyfalaf sy'n wynebu'r GIG. Mae'r rhain eisoes wedi cael eu defnyddio fel yr amlinellir yn adroddiad y Grŵp Cyngori Gweinidogol, mewn enghreifftiau fel y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Mae adolygiad o'r gwahanol opsiynau ar gyfer ffynonellau ar wahân i gyfalaf traddodiadol wedi cael ei gynnal. Bydd hwn yn cael ei ystyried yn fanwl yn erbyn cynlluniau cyfalaf blaenoriaeth yn y dyfodol i ystyried a yw ffynonellau amgen yn

opsiynau realistig. Fel y mae adroddiad y Grŵp Cyngori Gweinidogol yn ei argymell, gellir ystyried hyn cyn cylch cyfalaf 2026/27.